



# Gwerthusiad o'r Prosiect Eiriolaeth Ymweliadau Preswyl Covid-19

GORFFENNAF-TACHWEDD

# 2020

12 Ffordd y Gogledd • Caerdydd • CF10 3DY  
T: 029 2039 6974 E: [admin@tgpcymru.org.uk](mailto:admin@tgpcymru.org.uk)  
[tgpcymru.org.uk](http://tgpcymru.org.uk)



## CYFLWYNIAD

TGP Cymru fu'r prif ddarparwr eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc, ledled Cymru, dros y 19 mlynedd diwethaf. Rydym yn darparu eiriolaeth statudol mewn 13 o awdurdodau lleol Cymru a bob blwyddyn rydym yn cefnogi dros 2,000 o blant a phobl ifanc i ddweud eu dweud. Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau eiriolaeth ymweliadau ar gyfer nifer o gartrefi preswyl awdurdodau lleol a phreifat.

Gwerthusiad yw'r adroddiad hwn o brosiect tymor byr, wedi'i ariannu gan **Gronfa Argyfwng Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)**, i ddarparu unigolyn annibynnol y gallai pobl ifanc mewn gofal preswyl ymgysylltu ag ef i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ar adeg pan na allai eraill eu cyrraedd oherwydd llai o weithredu yn sgil pandemig Covid-19. Mae cyfyngiadau a osodwyd ar gymdeithas i atal lledaeniad y feirws wedi cael effaith negyddol ar bobl ifanc a oedd eisoes wedi'u cuddio o gymdeithas i raddau. Rydym hefyd yn ymwybodol nad oes dealltwriaeth dda o eiriolaeth ymweliadau a'r manteision y mae'n eu cynnig. Am y rhesymau hyn fe wnaethom ni fanteisio ar y cyfle i geisio cyllid brys a dechrau ar y dasg sylweddol o gysylltu â chartrefi preswyl Cymru.



## GWERTHUSIAD

---

Mae'r gwerthusiad hwn yn ymhelaethu ar gyflawniadau prosiect tymor byr i estyn llaw i bobl ifanc, mewn cartrefi preswyl ledled Cymru, nad ydynt efallai wedi cael eiriolaeth o'r blaen neu nad ydynt yn ei chael ar hyn o bryd. Mae'n cadarnhau'r angen pan nad oedd darpariaeth ar gael ac yn amlygu'r canlyniadau llwyddiannus a ganmolwyd gan reolwyr cartrefi a threfniadau ffurfiol parhaus sydd wedi deillio o'r prosiect hwn.

## Y RHESWM

---

Yn 2019 hwylusodd TGP Cymru adolygiad annibynnol o eiriolaeth mewn cartrefi preswyl a nododd nad oes gan lawer o bobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi preswyl preifat ledled Cymru fynediad at wasanaethau eiriolaeth. Felly, gyda dyfodiad pandemig Covid-19, gwnaethom gydnabod yn gyflym y gallai pobl ifanc mewn cartrefi preswyl wynebu mwy o heriau na'r rhan fwyaf ohonom o ganlyniad i lai o symudedd a llai o gyswllt wyneb yn wyneb â gweithwyr proffesiynol nag arfer.

Gwyddom fod ynysu yn anodd ac roeddem yn teimlo y gallai cefnogi'r grŵp hwn o bobl ifanc drwy'r cyfnod hwn fod yn allweddol i osgoi tensiynau lleoli, gwella'r berthynas rhwng pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, galluogi cyfathrebu a chadw pobl ifanc yn ddiogel yn y pen draw.

At hynny, rydym yn angerddol ynghylch eiriolaeth. Rydym yn deall yr effaith a'r canlyniadau y gall eu cyflawni sydd, yn ogystal â datrys gwrthdaro, hefyd yn cynnwys ei atal, ac roeddem yn awyddus i sicrhau bod yr holl bobl ifanc a allai elwa ar eiriolaeth yn ystod y cyfnod digynsail hwn, yn cael cyfle i roi cynnig arni.

## EIN NOD

---

Mae eiriolaeth yn darparu mynediad at eiriolwr annibynnol, diduedd a all gefnogi pobl ifanc i godi materion, gofyn cwestiynau a chael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Gall ddarparu hinsawdd o ymddiriedaeth a gobaith ar adegau o ddryswch, straen ac anobaith a sicrhau bod y cynulleidfaoedd ehangach yn eu bywydau yn eu clywed, gan sicrhau hefyd fod eu llais yn cael ei glywed ym mhob sefyllfa, o'r penderfyniadau bob dydd i brosesau gwneud penderfyniadau ffurfiol.


Nod y prosiect hwn oedd defnyddio ein gwasanaethau a chynnig cymorth i rai o'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yng Nghymru, y nodwyd y gallai fod yn bosibl eu bod mewn perygl ychwanegol yn ystod cyfnod ansicr iawn.



## EIN DULL GWEITHREDU


Aethom â'r neges i gartrefi preswyl preifat ar hyd a lled Cymru, gan gynnig cyfnod am ddim o eiriolaeth ymweliadau 'rithwir' iddynt gan ein heiriolwyr annibynnol, proffesiynol. Yn dilyn ein cysylltiad cyntaf â 128 o gartrefi preswyl ymunodd 37 o gartrefi â'r cynllun. Gwnaethom ymgysylltu o Ynys Môn i Dde Morgannwg; o Sir y Fflint i Abertawe ac roeddem yn gallu penodi eiriolwyr i bob ardal fwy neu lai o'n timau rhanbarthol. Croesawodd ein heiriolwyr y gwaith ychwanegol ar gyfer y Prosiect gan sefydlu cyswllt misol rheolaidd i gyfathrebu â phobl ifanc drwy Zoom, WhatsApp, Microsoft Teams, Face Time a galwadau ffôn. Cytunwyd ar amseroedd 'ymweld' a drefnwyd ymlaen llaw ac addaswyd dulliau cyfathrebu i gyd-fynd â'r anghenion a'r cyfleusterau amrywiol a oedd ar gael yn y cartrefi preswyl.

### Y DDARPARIAETH



“ Bydd yn dda trefnu cyfarfodydd yn fuan, gan fod ein hynaf yn 17 oed ac yn camu tuag at fywyd lled-annibynnol – mae ein hieuengaf yn ein gadael ym mis Tachwedd. Rhowch ddyddiadau ac amseroedd i mi er mwyn i mi allu eu cadarnhau. **(Rheolwr Cartref)** ”

### SEFYDLU EIRIOLWR YMWELIADAU PRESWYL (RVA)




Daeth natur anghyson cyfyngiadau pandemig Covid-19 â llawer o bwysau emosiynol a logistaidd ar gartrefi preswyl a'u staff hefyd; llai o staff oherwydd hunanynysu a chanlyniadau cadarnhaol profion Covid-19, diffyg ymwelwyr, llai o gyswllt rhwng preswylwyr a'u teuluoedd i enwi rhai. Ond er gwaethaf yr heriau, roedd y staff preswyl wedi ymrwymo i hwyluso anghenion eu pobl ifanc, gan weithio gyda'r eiriolwyr i sicrhau defnydd diogel o'r dechnoleg sydd ar gael, ar adegau mwyaf addas i bawb ac roedd ein heiriolwyr yn dod â dibynadwyedd, hyblygrwydd a dychymyg wrth iddynt ymgysylltu â'u pobl ifanc.



## PWY GAFODD Y GWASANAETH?

Roedd y prosiect yn caniatáu i TGP Cymru ganolbwyntio ar fwllch a nodwyd ar yr adeg dyngedfennol hon a chafodd yr holl bobl ifanc a ymgysylltodd, o unrhyw ryw, anabledd, cenedligrwydd, rhai â phroblemau a rhai heb broblemau, gyfle i siarad ag eiriolwr yn gyfrinachol, yn ystod ymweliad rhithwir misol. Nid oedd pob cartref a phob preswlydd yn dymuno ymgysylltu; roedd rhai yn teimlo nad oedd ei angen neu roedd ganddyn nhw eiriolwr eisoes, ond o'r 83 ymweliad a gynhaliwyd, roeddem yn gallu sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed ac yn gallu ymateb i 12 mater a godwyd a chyfeirio 8 achos arall at Eiriolaeth ar Sail Mater, naill ai'n fewnol neu gan asiantaethau eraill. Ac – rydym yn gwybod bod llawer o gartrefi lle nad oedd eu pobl ifanc yn dymuno ymgysylltu, wedi arddangos ein gwybodaeth i atgoffa y gallwn gynnig cefnogaeth yn y dyfodol, pe baent yn teimlo bod angen ein gwasanaethau arnyn nhw.

### GWAITH A GWBLHAWYD



“

Nid yw A fel arfer yn ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol o gwbl ond mae wedi elwa yn fawr yn sgil y Gwasanaeth Eiriolaeth Ymweliadau. Rwyf wedi rhannu'r adroddiadau misol â'i gweithiwr cymdeithasol sy'n fodlon iawn.  
(Rheolwr Cartref)

”

## Y CYMORTH Y GWNAETHOM EI DDARPARU

---

Mae eiriolaeth ymweliadau yn ymwneud â'r cyfle i ymgysylltu. Mae'n sicrhau bod gan bobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi preswyl fynediad at rywun annibynnol a all eu cynghori ar eu hawliau, a'u cefnogi, drwy wrando ar eu pryderon a'u cynorthwyo i ddatrys anawsterau, gan sicrhau yn y pen draw fod ganddyn nhw lais wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Drwy'r Prosiect hwn:

- roeddem yn gallu ymgysylltu â phobl ifanc a oedd yn gwybod am eiriolaeth a'r rhai nad oeddent yn gwybod.
- Pan oedd gan berson ifanc eiriolwr eisoes ond a fanteisiodd ar y cyfle i siarad ag eiriolwr TGP Cymru, roeddem yn gallu casglu dymuniadau a theimladau er mwyn eu rhannu ag eiriolwyr a gweithwyr proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol presennol
- gwnaethom gefnogi ystod eang o faterion gan gynnwys cyswllt, lleoli a dychwelyd pobl ifanc at eu teuluoedd
- gwnaethom rannu dymuniadau a theimladau pobl ifanc mewn cyfarfodydd gwasanaethau cymdeithasol ac mewn prosesau llys
- gwnaethom gyfeirio pobl ifanc at gymorth arbenigol, gan gynnwys cyngor cyfreithiol
- gwnaethom gyfathrebu â phobl ifanc drwy ystod amrywiol o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys arwyddo a Makaton, darllen a rhannu llyfrau stori, a threfnu gwasanaethau cyfieithydd i bobl ifanc nad ydynt yn siarad Saesneg
- gwnaethom ddarparu adroddiadau byr, dienw i bob rheolwr cartref yn dilyn ymweliadau misol. Cafodd unrhyw faterion a nodwyd eu trafod yn gyfrinachol, yn ôl yr angen, ar ran y bobl ifanc
- cawsom argraff ar weithwyr cymdeithasol a rheolwyr cartrefi drwy ymdrin mor gyflym â materion a godwyd.

## GWERSI A DDYSGWYD

---

Oherwydd y terfyn amser sydd ynghlwm wrth y prosiect hwn, ynghyd â'i gwmpas posibl, dim ond ychydig iawn o amser a ganiatawyd i gysylltu â'r 128 o gartrefi preswyl ledled Cymru er mwyn cynnig y gwasanaeth am ddim. Er i hyn yn ein galluogi i reoli lefel y diddordeb a'r nifer a fanteisiodd ar y cynnig, nid oedd o reidrwydd yn rhoi digon o amser i feithrin perthynas â'r unigolion iawn, naill ai i sefydlu'r gwasanaeth neu i sefydlu trefn fisol dda. Byddai prosiect hirach yn ein galluogi i adeiladu ar hyn.

Rydym hefyd wedi dysgu na all eiriolaeth ymweliadau rithwir ddisodli darpariaeth wyneb yn wyneb. Gwyddom o brofiad y gall gymryd amser i bobl ifanc feithrin perthynas ag eiriolwr, yn enwedig pan fyddan nhw'n gweld ei gilydd unwaith y mis yn unig. Er ein bod yn gwybod na allai ymgysylltu rithwir wella hyn, serch hynny roedd yn gyfle cadarnhaol i estyn llaw i bobl ifanc agored i niwed ar adeg heriol.

Cadarnhaodd y prosiect hefyd nad oedd llawer yn gwybod am y cysyniad o eiriolaeth ymweliadau mewn cartrefi preswyl a'u staff. Roedd rhai cartrefi'n gyfarwydd ag eiriolaeth gan fod eu preswylwyr wedi cael cefnogaeth eiriolwr o'r blaen, ond nid oedd yr un ohonynt yn ymwybodol o'r gwasanaethau eiriolaeth ymweliadau a oedd ar gael.

## CASGLIAD

Rydym yn hynod ddiolchgar ein bod wedi cael y cyfle i roi cymorth ychwanegol i bobl ifanc mewn llawer o gartrefi preswyl preifat Cymru yn ystod yr hyn a fu'n gyfnod o ansicrwydd mawr yn eu bywydau.

Mae lefel yr ymgysylltu â'r prosiect ymhlith pobl ifanc yn awgrymu bod eiriolaeth yn wasanaeth y mae mawr ei angen – codwyd y mater eiriolaeth ac ymdriniwyd ag ef ar gyfer un o bob pedwar cyswllt a wnaed, sy'n uwch na'r lefel gyfartalog o'r defnydd o wasanaethau o'r fath.

Rydym yn falch iawn o fod wedi cael adborth mor gadarnhaol gan bartneriaid a byddwn yn parhau i weithio gyda chartrefi preswyl ledled Cymru i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o eiriolaeth ac yn elwa arni yn ôl y galw.

**“ Mae'n wych cael cyfle i'n pobl ifanc gael y gwasanaeth eiriolaeth hwn. Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan i drefnu dyddiad/amser. (Rheolwr Cartref) ”**

**“ Mae'r gwasanaeth wedi bod yn wych ac rwy'n gwybod bod pobl ifanc o'r ddau gartref wedi elwa arno. Cawsom ein harolygu'n ddiweddar ac roedd AGC yn falch iawn o glywed bod gennym Wasanaeth Eiriolaeth Ymweliadau ar waith ar gyfer ein pobl ifanc. (Rheolwr Cartref) ”**



Yn ddiweddar, gwnaethom gymryd rhan yn y prosiect ymweliadau preswyl sy'n cael ei redeg gan TGP Cymru. Roedd hwn yn brofiad cadarnhaol i'n plant, yn enwedig ar adeg mor anodd. Roedd ymagwedd gyfeillgar a chroesawgar yr eiriolwyr yn gwneud i'n plant deimlo'n gartrefol ac yn caniatáu iddyn nhw archwilio a siarad yn rhydd gyda hyder. Cafodd y plant gyfle i sgwrsio'n unigol neu fel grŵp ac roedd hyd pob galwad yn addas er mwyn cynnal diddordeb y plant.



**Matt Greening - Rheolwr dau gartref preswyl yn y grŵp Priority Childcare**

O fy mhrofiad o weithio mewn lleoliad preswyl gyda phobl ifanc o bob Awdurdod, mae wedi bod yn anodd dod o hyd i wasanaeth Eiriolaeth dibynadwy. Fodd bynnag, mae hwn wedi bod yn wasanaeth gwych. Mae'r bobl ifanc yn ymwybodol bod ganddyn nhw'r dewis hwn hyd yn oed os nad ydyn nhw'n dewis ei ddefnyddio. Fel Rheolwr, mae gwybod bod gan yr holl bobl ifanc yn ein gofal y dewis hwn yn wych ac rwy'n teimlo bod y cyfathrebu wedi bod yn dda hefyd.



Rwy'n ymwybodol nad yw'r rhyngweithio ymhlith y bobl ifanc sydd wedi'u lleoli wedi bod ar lefel uchel, ond mae'r ffaith bod y gwasanaeth hwn ar gael iddyn nhw yn ardderchog ac edrychwn ymlaen at barhau i'w ddefnyddio.

**Jodie Banks - Rheolwr Gwasanaeth Teresa House - Care 4 Children**

Mae ein profiad gyda TGP Cymru wedi bod yn Gadarnhaol. Ers y gwasanaeth cychwynnol i drefnu eiriolaeth ar gyfer ein preswylwyr, rydym wedi cyfarfod ag aelodau brwdfrydig a chefnogol eich tîm. Mae'r bobl ifanc wedi elwa ar y dewis o gael rhywun annibynnol i siarad â nhw a gwybod eu bod yn mynd i gael y cyfle hwn yn aml.



Mae'r gwasanaeth hwn yn ein galluogi i ddangos ein tryloywder fel sefydliad a'r hyder i ddarparu eiriolaeth annibynnol i'r bobl ifanc. Mae hyn yn dangos ein bod yn hybu llais y bobl ifanc ac rydym yn ffyddiog bod ein harferion yn canolbwyntio ar y plentyn.

Edrychwn ymlaen at barhau â'r berthynas newydd hon a gweithio gyda chi yn y dyfodol.

**Jamie Lucas - Rheolwr Cofrestredig - Fairways, Birch Grove**

**Dafydd Davies - Uwch Reolwr Cofrestredig - Fairways, Tŷ Rhos Bach**